NG35.5.39

DWY

# FARWNAD,

AR FARWOLAETH

*ANNE EVANS*;

MERCH I'R PARCHEDIG

Mr. *MORGAN EVANS*,

O'R TY'N-Y-CWM, O ABER-GWESSIN

YN SIR FRECHEINIOG:

YR HON A YMADAWODD A'R

BYD Y 19. O CHWEFROR.

M.DCC.LXXXIV.

PSAL. LXXXIV. 10.

*—Dewiſwn gadw drws yn nhŷ fy Nuw o ſlaen trigo ym mhebyll annuwioldeb.*

Pſal. xc. 6.

*Y boreu y blodeua, ac y tŷf; prydnawn y torrir ef ymaith, ac y gwywa.*

X905307572X 1984

TREFECCA:
Argraphwyd, yn y Flwyddyn 1784.

# Y FARWNAD I.

1 CHWI Gyfeillion hardd cariadus,
Sy yn yr Eglwys ſilwriaethus,
Yn preſwylio yn nhŷ'r ARGLWYDD,
Tan y groes er maint y gwaradwydd,
Ac ſy'n dal eu ffordd yn ffyddlon,
Tu a'r wlad er brad gelynion;
Teyrnas Ne', dedwydd le,
Annedd le Duwiolion,
Sydd yn canu draw yn gyſſon,
Wedi myned dros yr afon.

2 Clywch beth rhyſedd yn ein dyddie,
Yn y Gwanwyn daeth yr Hydre;
Wedi i'r egin darddu allan,
Yn y blodau rhowd y cryman;
Dyma alarnad profiad pruddedd,
*Nani* aeth i'r Byd di-ddiwedd!
Wedi bod, dan y rhod,
Yn hynod rai dyddie,
A 'madawodd a'n cyntedde,
Ac aeth i'w thrag'wyddol artre.

3 Nid yw angau yn waſtadol,
Yn myn'd 'nol rheſwm cyffredinol;
At yr henaint clafaidd clwyſus,
Ond at y ie'ngctid gwiwlan gweddus;
Wrth ddal ſylw mi ganfydda',
Rai 'mhlith eraill draw ac yma,
A blodau'r bedd, yn eu gwedd,
I'w gweled yn ole,
Etto yn mwynhau munude,
A'r iau o oedran yn myn'd adre.

4 Gwyn eu byd y meirw dedwydd,
Y rhai ſy'n marw yn yr ARGLWYDD;

Gwerthfawr ydyw marwolaethau,
Ei Saint yng olwg DUW yn ddiau;
Maent yn gymmwys yn cael gorphwys,
O fewn i'r barod bur Baradwys;
Nefoedd mwy, iddynt hwy,
Trwy y Clwy a gadwyd,
Sy wedi gorfod pob rhyw ofid,
A myn'd o'u bodd i dîr y bywyd.

5 Fe fu *Nani* yma ronyn,
Yn y winllan fel planhigyn;
Hardd ei blodau, pêr ei ffrwythau,
Doeth ei dyall dwys ei doniau;
'Roedd arni hiraeth hynod hylwydd,
Am fyn'd i gynteddau'r ARGLWYDD,
A hyn o hyd, oedd ei bryd,
Yn ddiwyd i ddyfod,
Lle byddeu'r llwythau yn cyfarfod,
Yma'n llon yn Sion iſod.

6 Nid wy'n rhifo ei rhinweddau,
Er mwyn boddio neb perſonau,
Nac yn ſôn am ei rhagoriaeth,
Er mwyn rhoi iddi hi ddyrchafiaeth;
Mae pawb o'r byd i gyd yr un-wedd,
Wedi eu llunio mewn anwiredd,
Ond Efe, Brenin Ne'
'Wnaeth y gwahaniaeth,
Efe yw Awdwr Cadwedigaeth,
A ffynnon loyw Iechydwriaeth.

7 Mae 'nghyfeillion yn fy ngad'el,
Yma o hyd mewn byd o ryfel;
'Rhai a welais yn ymdeithio,
Trwy'r diffeithwch heb ddiffygio;
Eu gwaith a'u gyrfa wedi gorphen,
A chael mwynhad o'u gwlad eu hunain,
Gwynfyd mwy, eu henaid hwy,
Aeth trwy bob triſtwch,
Mewn i hafan yr hyfrydwch,
I wel'd y Brenin yn ei degwch.

8 O! fy Chwaer mae'n alar imi,
Feddwl rhoddi ffarwel itti;
Mi'th welais ar y ffordd yn ffyddlon,
Yn teithio yn fymyl tu a Sion;
Yn ceifio tynnu yn erbyn tonnau,
Ar ôl y fanctaidd gywir Seintiau;
Gwneft trwy'r wlad, i dy draed,
Gerddediad glân golau,
Ac heb droi y clôff o'r llwybrau,
O! mor gymmwys oedd dy gamrau!

9 Ti fuoft yma yn dra enwog,
Yn dy broffes yn flodeuog;
Fel Olewydden îr a ffrwythlon,
Wedi 'i phlannu wrth yr Afon;
A'th ddail yn lâs heb wywo gronyn,
Trwy rinwedd nôf y nefol wreiddyn;
Trwy dy ffydd, nos a dydd,
'Roedd cynnydd dy grefydd;
Ond fylwi ar deimladau newydd,
O'it yn barod iddo beunydd.

10 Wrth wel'd gelynion creulon cyfrwys,
Yr o'it yn fynych iawn yn ofnus,
Rhag nad oeddit ti mewn purdeb,
Wedi adnabod grym duwioldeb;
Ond dy ymffroft oedd er hynny,
Ddydd a nos ynghroes yr IESU;
Dyma o hyd, yn y byd,
Oedd ergyd dy Yfpryd,
Cael adnabod fod dy fywyd,
Wedi ei guddio yn dy anwylyd.

11 Ti fuoft ddyfal iawn i chwilio,
Rhag y galle'th fail di figlo;
Nid rhyw hanes bell am bethau,
A'th ddaliai i'r lan o tan gyftuddiau;
Ond adnabod fod yr IESU,
Ar dy Yfpryd gwan yn gwenu,

Gwel'd ei wedd, teimlo ei hedd,
Oedd dy wledd hyfryd;
Ond pan guddiai ei wyneb-pryd,
Yn wastad byddit mewn rhyw ofid.

12 Gwael a fuost yn y gwelŷ,
A'th wedd egwan yn gwanychu;
Llawer gwaith i'th welais yno,
Yn dra llwythog yn och'neidio;
Blodau nattur oedd yn gwywo,
Ond dy Yspryd yn adfywio;
Angau du, gelyn crŷ,
Oedd yn hŷ yno,
Arnat ti yn dechreu gweithio,
Nes oedd sylfaeni'r tŷ yn siglo.

13 Ond o'r diwedd daeth yr oriau,
I ti orphen ar dy siwrnau;
A myn'd i gwrdd â'r gelyn ola',
Lle nad oes arfau i ryfela;
Ond rhyfedd elw oedd marwolaeth,
Am fod CRIST yn fyw it' eilwa'th;
Dros brydnhawn, irad iawn,
Arosodd wylofain,
Daeth y boreu hardd drachefen,
Byth ni chlywir di yn ochen.

14 Beth a dal i'm wylo dagre,
Wrth fyfyrio dy fyn'd adre;
Ni welai mwy o'th wyneb gweddus,
Ac ni chlywai'th lais cariadus!
Yn fy annog i ddiwygio,
A gadael fy ynfydrwydd heibio,
Pan bawn i'n ffôl, yn myn'd ar ôl
Bydol wrth-ddrychiau,
Ti'm cynghorit hwyr a borau,
I 'mo'yn 'n ymhell am well trysorau.

15 Dywed, pa gyfeillion newydd,

A weli neb ymhlith nefolion,
A geraist ymma yn dy galon?
Ac aeth yn lân o'th flaen flynyddau,
Yn iàch uwch nen i ben eu siwrnau?
Ti ge'st fraint, gyd â'r Saint,
Rhyfedd faint honno!
Sef cael gorphwys lle na's gallo,
Neb gelynion mwy dy flino.

16 A wel'd di yna'r dyrfa ddedwydd,
Y rhai a rifodd y Difeinydd?
Pedair mîl a saith ugein-mîl,
Oedd y rhai'n i'w cyfri'n gynnil;
A ddaeth trwy ras i'r ddinas ddiogel,
Maes o lwythau meibion *Israel*,
Dyna'r llu, sanctaidd sŷ,
Frŷ mewn llawenydd,
Gyd â'r OEN ar Sion fynydd,
Ac yn eu genau ganiad newydd.

17 A wel'd di yna dyrfa heb honno,
Na ddichon tafod byth eu rhifo?
Wedi dod o amryw leoedd,
Pob rhyw Bobloedd, Llwythau, ac Ieithoedd?
Y rhai a brynwyd o blîth dynion,
Yn hardd eu gwedd mewn gynau gwynion,
Ger bron yr OEN, heb ddim sôn,
Am boen na griddfan,
Y rhai o'r cystudd mawr ddaeth allan,
Ai un o'r rhei'ny wyt ti'th hunan!

18 D'wêd pa ryfedd ryw ragoriaeth,
A weli yn y parthau perffaith?
Yn y Sion orfoleddus,
Ar y Sion filwriaethus?
A pha ryw hynod wŷch wasanaeth,
A ge'st yng wlad dy Etifeddiaeth?
A pha ryw wlêdd, hwyl a hêdd,

A pha ganiadau mewn cyttundeb,
Sydd yn ardaloedd anfarwoldeb ?

*Att.* 19 " Fy mrawd 'does ryngof fawr cyfeillach,
" A neb rhyw ddaearolion mwyach ;
" Llyngcwyd pob perthynas gnawdol,
" Gan y Bywyd mawr trag'wyddol ;
" Ni all tafod marwol byth fynegu,
" Y filfed ran a welai heddu !
" Cês trwy ddrŷch, gweddaidd gwŷch,
" I edrych o Nebo,
" Ond mwynhad ymhell aeth heibio
" I ddim a ddarfu i'm obeithio,

20 " Dedwydd yw y rhai wahoddwyd,
" I neithor hardd yr OEN a laddwyd ;
" Ac a dderbynnir mewn mawr urddas,
" I mewn i 'ftafell y Brïodas ;
" Llefa llawer y pryd hynny,
" *Arglwydd, Arglwydd, agor inni,*
" Na fu erioed, dan ei nôd,
" Yn dyfod fel defaid,
" Yna'r Bugail mawr bendigaid,
" A'u di-arddela fel dieithraid.

21 " Gwir fod ffrwythau dyffryn Efgol,
" Ar y ffordd yn dda ragorol ;
" Er mai 'chydig ar droftanau,
" O'wn i'n gyrraedd ar y gorau ;
" Ond pan ddaethum mewn i'r Bywyd,
" I fedi o ffrwythau'r tiroedd hyfryd,
" Syppiau rhâd, Canaan wlâd,
" Sy ymma'n waftadol,
" Yn y Swpper mawr trag'wyddol,
" 'Clywaift fi yna yn eu canmol.

22 " O ! Fy mrawd ymhob cyn'lleidfa,
" Cymmyfg bobol welais yna ;
" Lle bae'n canu mwyaf ...

" A phan byddem yn cymmuno,
" Judas fyddai'n rhyw-le yno;
" Calon ddu, dyna fu,
" Yn maeddu yn waſtad,
" Ond yn awr ar dîr fy Ngheidwad,
" Nid oes gylni yn fy nghariad!

23 " Braint yn nyffryn Bacca chwerw,
" Yw cael y llynnoedd wedi eu llanw;
" A chael profi'r Pren pereiddia,
" Yn meluſu dyfroedd Mara;
" Dyma ſugnodd fy ſerchiadau,
" O hyd trwy fyd o orthrymderau;
" Gwel'd o mlaen, er dwr a thân,
" Yr hafan ddymunol,
" Gwlâd fy ngenedigaeth ddwyfol,
" Tre' fy nhrigfan yn drag'wyddol.

24 " Pan o'wn yn croeſi crâs fynyddau,
" Da eu defnydd oedd y dafnau,
" 'Gefais gan fy Mhrynwr perffaith,
" I lonni 'm henaid ar ei ymdaith;
" Ond 'nawr 'rwy 'n yfed yn ddi-attal,
" O'r dyfroedd gloyw fel y griſial,
" Llawn ryddhad, trwy y gwaed,
" Wy'n waſtad yn brofi,
" Ac heb gwyno mwy am gulni,
" Na chalon galed byth ond hynny.

25 " Iddo ef yr hwn a'n carodd,
" Ac yn ei Waed ei hun a'n golchodd!
" Yn lân oddi wrth halogrwydd pechod,
" Ac euogrwydd ein cydwybod;
" Ac a'n prynodd trwy 'farwolaeth,
" Yn Etifeddion Iechydwriaeth:
" I Fab Duw, ein Prynwr gwiw,
" B'o bob rhyw anrhydedd:
" Dyma ſalwedd manol mwynedd

26 " 'Does arna'i newyn mwy na ſyched,
" Na dim dagrau'n llanw'm llyged;
" Ond bwytta ac yfed mewn modd addas,
" Gyd â mhrïod yn ei deyrnas:
" Profi ei hêdd a gwerth ei haeddiant,
" Gorfoleddu am faddeuant;
" Yfed gwîn, pêr ei rîn,
" Heb brinder un amſer,
" Dyma'r ſyppiau ſy'n y Swpper,
" Hyfryd hîr ar dîr uchelder.

27 " 'Rwy' ymma 'nawr yn cyfeillachu,
" A'r Patriarchiaid a'r Prophwydi;
" Apoſtolion a Merthyron,
" A llu aneirif o Angylion!
" Ond ſylwedd fy nedwyddwch hynod,
" Yw bod yn agos at fy Mhrïod:
" Dihuno wnês, yna cês,
" A'i ddelw fy ngwiſgo;
" Nefoedd i'm yw'r olwg arno!
" A bod yn gyffelyb iddo."

28 Ffarwel weddaidd ſwynaidd forwyn,
Llawenycha yn dy Frenin;
Mae'r meddyliau dy fyn'd adre,
Yn orfoledd i mi weithie;
Wrth feddwl am elynion newydd,
Sy ymma o hyd ym myd y cyſtudd,
A rhyw groes, ddydd a nôs,
Yn aros yn rhyw-le,
Tithau 'hedaiſt i'r trigfanne',
Sy uwch-law cyrhaedd temtaſiyne'.

29 Nac achwyn mwy na chlwy na chlefyd,
Nac un-rhyw gyſtudd yn dy Yſpryd;
Na hudoliaethau gwaetha'r gelyn,
Na chorph o lygredd yn dy ddilyn:
Na rhodio mwy heb lewyrch hyfryd,
Wyneb ſiriol dy Anwylyd;
Pan aethoſt frŷ, i blîth y llu,

Ofon angau aeth yn ango,
Yn y wlâd 'rwyt ti'n preſwylio.

30 Bellach *Nani* 'rwy'n diſtewi,
Ni chaf ymma mwy dy gwmp'ni;
Ffar-wel cyd-ddarllain, cyd-ymddiddan,
Ffar-wel cyd gerdded tu a'r Ganaan;
Ffar-wel cyd-wrando, cyd-weddio,
Ffar-wel mwyach gyd-ymdeimlo;
Ffar-wel chwa'r, weddaidd wâr,
Gyfeillgar gariadus;
Ffar-wel itti yn alarus,
Ffar-wel etto'n orfoleddus.

31 Un mîl ſaith-cant pedwar-ugain,
Pedeir ragor medd gwŷr Brydain,
Oedd oedran hardd ein HARGLWYDD hynod,
Er pan ddaeth E' i wiſgo Dyndod;
Pump ar hugain ydoedd hithau,
Pan ei dodwyd gyd â'i Thadau:
Pridd i'r bridd, 'ro'w'd ynghudd,
Heb gyſtudd na chwyno;
Wrth Bant-y-Celyn ca'dd ei chuddio,
Hi g'od yn anllygredig etto.

*Joſia Eſans a'i Cant.*

## YR AIL

## FARWNAD.

1 GWYR a gwragedd gwiwlan gweddedd,
Meibion mwynedd doſedd dwys;
Merched heſyd haſedd hyfryd,
Sy'n gwrthod goſid penyd pwys;
Gwrandewch hiraeth mewn cym'dogaeth,
Am ferch brydferth Eneth bur,
*Nanſy Evans* lân arafaidd,
Dyma fwynedd waredd wir.

2 Mawr yw'r galar ſydd o ddeutu,
Fry ac obry yma a thraw,
Ac ymhlith y bywiol ſeini,
Mae galaru ar bob llaw;
Ar ôl y ſiriol Seren weddedd,
Merch o rinwedd ac o ras;
Yma ar daith ei phererindod,
Gwir adnabod Duw a ga's.

3 Yn ei phedwaredd blwydd ar bymtheg,
Gwnai broffes landeg yn ei Dydd;
Ei bod yn profi cariad Iesu
Gan Dyſtiolaethu hyn trwy ffydd,
Yn ei ieuengctid 'roedd yn hyſryd
Ei gwel'd yn maſlyd yn y gwaith,
Ac yn llafurio fel Llawforwyn,
Mewn yſpryd addfwyn ar ei thaith.

4 Fel Doeth forwyn dyfal wyliau,
A'i lamp yn olau ymhorth y tŷ;
Lle dewiſie wneud ei chartre
Ym myſg y llwythau gare'n gu;
Hyd y gallodd pwy a welodd
Ei lle hi yn wag gerllaw y bwrdd,
Pan fyddau 'r brodyr ar chwiorydd
I addoli Duw yn cwrdd?

5 Nid yn farwedd nag yn ſegur,
Ond mewn myfyr ar ddihun;
A'i ſerch yn gynnes a'i gwedd yn ſymyl,
Gwrandawai Efengyl Mab y Dyn;
Gwrando yr oedd hi am fywyd,
Gwrando am iechyd ac am nerth,
Gwrando am ole' i wel'd yn eglur,
I ddringo 'r llwybyr cywir ſerth.

6 Ei chalon wan a'i hyſpryd ofnus,
Oedd yn alarus lawer pryd,
Nid ofnau yn attal neu yn gorchfygu,
Ond ei gyrru ymlaen o hyd,
L'mofyn gael'el yn fwy diogel,

Lle yr oedd ei bywyd yn guddiedig,
Hi gredai hyn yngoleu yr haul.

7 Hi hoffai'r duwiol yn benodol,
Fel y cyfryw ar y llawr;
Y rhai debyg'sai wrth eu ffrwythau,
Oedd dan nodau'r Bugail mawr;
Ac er ei bod hi yn sefydlog,
A di-ysgog yn ei barn,
Ni ddiystyrai, ond hi barchai,
Deulu DUW bob cwrr a darn.

8 Yn y teulu ac yn yr Eglwys,
O! Mor gymmwys oedd i'w lle;
Ei hyfrydwch a'i diddanwch,
Oedd ynghwmp'ni plant y Ne;
Cyn ymad'el rhoddai ffar-wel,
Yn ei bryd i'r ddaear ddu,
Mawr hiraethe am fyn'd adre,
At y Seintie perffaith fry.

9 Ffar-wel *Nani* rhaid rhoi synu,
Heb helaethu ar hyn o gân;
Ti est yn gysson i fryn Sion,
At y cyfeillion aeth o'r blaen;
Pa fodd 'rych yna yn cyd-wledda,
A pha ryw gyfeillachu sydd,
'Rwi yn methu egluro rhaid ymado,
Oni wawrio'r borau ddydd!

10 Pum-mlwydd ar hugain oedd ei hoedran,
Glywai yn gysan nawr ar goedd,
Pan ddarfu i'r llinin arian dorri,
Ei henaid at yr IESU a ffodd;
Mae yn anwyl i ni feddwl,
Ac etto yn swmbwl yn y cnawd,
Ni ddichon tafod byth synegu,
Y fraint fod iddi GRIST yn frawd!

DIWEDD.